Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Seren**

**Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen**
**Cwmann**
**Llanbedr Pont Steffan**
**SA48 8ET**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/04/2023

## Clwb Seren

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Seren Day Nursery Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 03 Rhagfyr 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf yn y lleoliad ac maent yn gwneud penderfyniad am sut i dreulio eu hamser. Maent yn datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'r staff a'r plant eraill, sy'n helpu iddynt deimlo'n hapus ac yn gartrefol. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda, gan fwynhau'r gweithgareddau a'r profiadau chwarae a gânt.

Mae'r staff yn dilyn polisïau, gweithdrefnau ac arferion effeithiol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel a hyrwyddo ffordd iach o fyw.  Maent yn rhyngweithio'n dda â'r plant ac yn eu hannog i ryngweithio ac ymddwyn mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r staff yn cefnogi diddordebau'r plant ac yn hyrwyddo gweithgareddau addas er mwyn i'r plant allu chwarae a mwynhau eu hamser yn y clwb.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae'r staff yn cynnal gwiriadau rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd sy'n caniatáu i'r plant chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn sicrhau bod adnoddau a chyfleusterau addas ar gael.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r clwb a'r staff yn dda. Caiff y gwaith papur ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiweddaru pan fo angen. Mae'r staff yn mwynhau gweithio yn y lleoliad, gan helpu i greu awyrgylch hamddenol a chroesawgar. Cynhelir adolygiadau rheolaidd o'r gofal a ddarperir sy'n helpu i gynllunio ar gyfer gwelliannau.

## Llesiant Da

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Er enghraifft, gall y plant ofyn am adnoddau ychwanegol, helpu i gynllunio gweithgareddau neu ofyn am fwy o fwyd yn ystod amser cinio. Mae'r staff yn gwerthfawrogi safbwyntiau a diddordebau'r plant ac yn ymateb iddynt. Er enghraifft, dechreuodd y plant greu cuddfan gan ddefnyddio'r parasiwt ac roedd y staff yn cefnogi ac yn annog eu syniadau.

Mae'r plant yn fywiog ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Gwelsom y plant yn gwenu ac yn setlo'n gyflym wrth iddynt gyrraedd y lleoliad. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Roedd y plant wedi ymlacio'n llwyr, yn ymgysylltu â'u gweithgareddau ac yn mwynhau rhyngweithio â'r bobl o'u cwmpas. Caiff teimladau, hoffterau, cas bethau ac anghenion y plant eu cydnabod a'u cefnogi drwy gydol eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn dda iawn, a hynny'n gyson, ac mae'r plant yn cydweithio'n dda. Mae'r plant hŷn ac iau yn fwy na pharod i chwarae gyda'i gilydd, gan rannu teganau ac adnoddau gyda'i gilydd. Er enghraifft, wrth chwarae gyda'r doliau, gofynnodd un plentyn i blentyn arall am ei fabi, a gwnaethant gymryd eu tro wrth chwarae 'Beth yw'r amser Mr Blaidd'. Mae'r plant yn gofyn cwestiynau i'r staff yn hyderus ac yn ateb cwestiynau'r staff neu'n dilyn eu ceisiadau.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored a gallant ddewis ymlacio a chael adegau tawel. Gwelsom y plant yn symud o gwmpas y brif neuadd, yn dewis tynnu llun a lliwio ar y bwrdd neu orwedd ar y clustogau i ddarllen llyfr. Mae'r plant yn cael rhyddid i archwilio eu hamgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel.

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i gychwyn eu chwarae a'u gweithgareddau eu hunain. Mae cydbwysedd da o weithgareddau dan arweiniad y plentyn a gweithgareddau dan arweiniad yr oedolyn. Gallant ddewis o'r adnoddau a'r teganau sydd wedi'u gosod allan ar eu cyfer, gofyn am adnoddau ychwanegol yn ogystal â chymryd rhan mewn rhai gweithgareddau dan arweiniad yr oedolyn. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, gallai'r plant ddewis beth i'w roi ar eu pitsa i ginio.

## Gofal a Datblygiad Da

Mae bron pob aelod o'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant, ac yn eu rhoi ar waith. Maent yn nodi risgiau ac yn mynd ati i'w rheoli. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac atebodd y staff yn hyderus wrth nodi beth y byddent yn ei wneud pe bai pryder amddiffyn plant. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff mor hyderus o ran beth i'w wneud y tu allan i weithdrefnau'r lleoliad. Mae'r staff yn rhoi arferion ar waith sy'n helpu i gefnogi a hyrwyddo ffordd iach o fyw. Mae'r byrddau yn cael eu glanhau cyn eu defnyddio ar gyfer byrbrydau ac anogir y plant i olchi eu dwylo drwy gydol y sesiwn. Mae dewisiadau bwyd iach fel ffrwythau ar gael ar gyfer byrbrydau ac mae diodydd ar gael i'r plant drwy gydol y dydd er mwyn sicrhau eu bod yn yfed digon. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael digon o gyfleoedd i fod yn egnïol ac i gael awyr iach drwy gyfleoedd i fynd allan i'r awyr agored.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Er enghraifft, maent yn atgoffa'r plant am yr ymddygiad disgwyliedig ac yn atgyfnerthu'r ymddygiad y maent am ei weld yn gyson. Maent yn teilwra eu hymatebion i anghenion a galluoedd gwahanol oedrannau a chamau datblygiad y plant. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn arwain drwy esiampl bob tro y byddant yn siarad â'i gilydd a'r plant, mewn modd caredig a pharchus.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu gofal a phrofiadau addas ar gyfer anghenion unigol y plant. Maent yn addasu arferion a chyfleoedd i sicrhau y caiff holl anghenion y plant eu diwallu'n dda. Er enghraifft, mae'r staff yn cynnig dewis rhydd i'r plant o ran sut i dreulio eu hamser yn ogystal â chynnig rhai gweithgareddau dan arweiniad yr oedolyn. Mae'r staff yn ymateb yn gyson; maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Maent yn gofyn i'r plant yn rheolaidd a hoffent gael adnoddau eraill ac yn cynnig opsiynau drwy gydol eu cyfnod yn y gwasanaeth. Mae'r staff yn cymryd rhan weithredol yn chwarae a dysgu'r plant pan fo'n briodol iddynt wneud hynny neu pan fydd y plant yn eu gwahodd i gymryd rhan. Mae'r staff yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau chwarae a dysgu. Maent yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. Mae'r staff yn rhoi cymorth i'r plant drwy greu ardal lle y gallant chwarae a rhoi'r Egwyddorion Gwaith Chwarae ar waith.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da, yn yr ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn cynnal gwiriadau dyddiol, er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw beryglon yn yr amgylchedd ac yn cofnodi'r gwiriadau hyn ar daflen ticio. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu, nid oedd unrhyw dystiolaeth fod gwiriadau ar y system gwresogi na gwiriadau diogelwch tân wedi'u cwblhau. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwasanaeth wedi dangos tystiolaeth bod yr holl wiriadau diogelwch wedi cael eu cynnal. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi trefniadau glanhau priodol ar waith sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae eu harferion rheoli heintiau yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch cyffredinol y plant yn ddigonol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol boddhaol. Caiff yr asesiadau risg hyn eu hadolygu'n rheolaidd a chymerir camau gweithredu mewn ymateb iddynt. Fodd bynnag, nid yw'r asesiad risg yn cynnwys y gweithdrefnau os bydd tân na'r gweithdrefnau wrth gasglu plant o'r ysgol. Mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer cynnal ymarferion tân. Mae ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd a chedwir cofnodion priodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do dda er mwyn i'r plant allu symud yn rhydd. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu llawer o anghenion y plant. Er enghraifft, caiff yr ardal dan do ei defnyddio ar gyfer ioga, dawnsio, ymlacio, adeiladu a gweithgareddau bwrdd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod unrhyw ofod chwarae awyr agored yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd. Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn gynnes ac yn hygyrch i bawb. Mae pob ardal yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac mae arddangosfa sy'n dangos y gweithgareddau a wneir yn y lleoliad. Roedd y plant yn dangos yr arddangosfa hon i ymwelwyr ac yn ei thrafod â nhw.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r amgylchedd yn briodol er mwyn sicrhau ei fod yn darparu amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer y rhan fwyaf o'r ystodau oedran sy'n cael gofal. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac yn cael eu storio'n briodol er mwyn eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da. Mae cyfleusterau addas ar gael gan gynnwys toiledau ac ardal cegin er mwyn paratoi byrbrydau. Mae amrywiaeth o ddodrefn o faint addas gan gynnwys cadeiriau a bwrdd, sy'n sicrhau y gall y plant fod yn annibynnol ac yn gyfforddus. Mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gael i ennyn diddordeb y plant ac i sicrhau eu bod yn ymgysylltu â gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Digonol**

Mae gan y lleoliad arweinwyr cryf sy'n gweithio mewn ffordd gadarnhaol i ddatblygu'r gwasanaeth. Mae datganiad o ddiben addas sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau addas ar waith. Maent yn eu hadolygu'n rheolaidd ac yn sicrhau, ar y cyfan, y cânt eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw'r cofnodion gofynnol ac yn sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol a llofnodion lle y bo'n briodol. Er enghraifft, maent yn casglu gwybodaeth ac anghenion unigol y plant drwy gontractau'r lleoliad ac yn cofnodi damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaethau a roddir.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu ansawdd y gofal bob blwyddyn. Maent yn gofyn am awgrymiadau gan y plant a'u rhieni/gofalwyr. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn llunio adroddiad priodol ar ansawdd y gofal sy'n adolygu'r adborth, yn gwerthuso'r gwasanaeth, ac yn gwneud rhai cynlluniau ar gyfer gwelliannau y maent am eu gwneud.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn proses recriwtio ddiogel er mwyn diogelu'r plant. Maent yn cynnal gwiriadau cyn cyflogi ar bob aelod o'r staff. Fodd bynnag, nid oedd yr holl dystiolaeth wedi'i chynnwys yn y ffeiliau ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cadarnhau bod yr holl dystiolaeth ar gael ac yn barod i'w harchwilio. Mae'r broses rheoli perfformiad yn dda ac yn annog y staff i ymgymryd â hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall. Cynhelir sesiynau goruchwylio ac arfarniadau effeithiol gyda'r staff. Fodd bynnag, nid oedd pob dogfen ar gael yn ystod yr ymweliad arolygu. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cadarnhau bod yr holl ddogfennaeth a'r holl gofnodion ar gael.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhieni yn ddigonol. Ar y cyfan, maent yn hysbysu'r rhieni yn rheolaidd drwy luniau ar eu tudalen breifat ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn rhannu adborth llafar bob dydd. Mae'r rhieni yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth. Gwnaethant ddweud wrthym fod y staff yn barod i helpu, eu bod yn cefnogi'r plant fel unigolion a'u bod yn mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau ar gyfer y plant a'r rhieni.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 15 | Nid yw'r Datganiad o Ddiben yn cydymffurfio â'r rheoliadau na'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 20 - Amddiffyn plant | Sicrhau bod y staff yn hyderus o ran eu cyfrifoldeb i roi gwybod i'r bwrdd diogelu lleol am bryderon yn ddi-oed. |
| Safon 24 - Diogelwch | Sicrhau bod yr holl dystysgrifau ar gyfer yr holl wiriadau diogelwch perthnasol a gynhelir yn cael eu cadw a'u bod ar gael i AGC eu harchwilio. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod ffeiliau pob aelod o'r staff a dogfennau eraill yn cael eu cadw yn y ffeil i'w harchwilio. |
| Sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu datblygu ymhellach i gynnwys asesiad risg tân yn ogystal â chynnwys mwy o ardaloedd o'r lleoliad. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/07/2023